# Polisi Perthnasau, adferol ac ymddygiad cadarnhaol Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

## Rationale

Mae llawer o astudiaethau ymchwil wedi dangos pa mor bwysig yw'r berthynas dysgwr-athro i lesiant a chyflawniad academaidd person ifanc yn yr ysgol ac felly, ar y cyd â'r Awdurdod Lleol, rydym wedi datblygu'r polisi canlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ogystal â'r anogaeth a'r hyfforddiant a ddarparwn i'n haelodau staff, rydym yn annog rhieni a phlant i gefnogi'r perthnasoedd hyn a'r egwyddorion a amlinellir yn y polisi.

## Gweledigaeth ac Egwyddorion

Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedi ei sefydlu ar egwyddorion adferol, ac rydym yn blaenoriaethu adeiladu, cynnal, cadw, a lle bo angen, adfer perthnasau iach. Rydym yn ysgol gynhwysol gydag ethos a gweledigaeth o gael cymuned cyfforddus, gofalgar, cydweithredol.

Er mwyn sicrhau fod gan pob dysgwr y cyfle i wireddu eu potensial ym mhob ffordd, mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn rhoi pwyslais ar ymddygiad da iawn mewn gwersi ac yn ystod amser rhydd y dysgwyr.

Mae gennym ddisgwyliadau uchel o bob aelod o'r gymuned, deallwn bwysigrwydd cyd-weithio er mwyn adeiladu perthnasau positif i sicrhau ymddygiad da ac i gefnogi lles ac addysg pawb.

- Credwn ei fod yn bwysig gyd-weithio i adfer sefyllfa os ydym yn achosi niwed i unigolion a/neu'r gymuned, neu os ydym wedi achosi niwed i ddysgu eraill.

- Rydym yn ymateb bob tro gan ystyried anghenion a chyd-destun unigolion. Mae hyn yn cynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd gan ddysgwr.

- Mae prosesau adferol (diffinnir yma fel cydnabyddiaeth o ryng-gysylltiad pob aelod o'r gymuned ysgol ac fel rhan o hyn y gallu i dderbyn a chymryd cyfrifoldeb am eiriau a gweithredoedd) yn rhan annatod o geisio gwella ymddygiad a magu perthnasau cadarnhaol - nid naill ai adferol neu cosbi, ond yn hytrach, defnyddio'r gwahanol opsiynau adferol (sgwrs, cyfarfod, cynhadledd) law yn llaw gydag unrhyw ganlyniadau.

- Proses yw adferol sydd yn gallu cymryd blynyddoedd, ac i'r dysgwr sydd yn ei chael hi fwyaf anodd i fod yn adferol, mae dysgu'r sgiliau yma fwyaf gwerthfawr.

**Brig y dudalen**

# Rolau a chyfrifoldebau

### Y corff llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu llawn yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'r polisi hwn ar y cyd gyda'r UDA, a byddant yn monitro effeithiolrwydd y polisi dros y flwyddyn ysgol.

### Yr Uwch Dîm Arwain

Mae'r UDA yn gyfrifol am adolygu'r polisi hwn, ar y cyd gyda'r corff llywodraethu. Bydd yr UDA yn sicrhau bod ethos yr ysgol yn blaenoriaethu perthnasau cadarnhaol ac felly yn annog ymddygiad cadarnhaol.

### Staff

Mae'r staff yn gyfrifol am:

- meithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus gyda dysgwyr
- gweithredu'r polisi hwn yn gyson gan ddilyn canllawiau'r ysgol (gweler llyfryn 'Perthnasau ac Ymddygiad')
- modelu ymddygiad cadarnhaol
- gweithredu dull person ganolog o ymdrin ag anghenion ymddygiadol dysgwyr penodol

### Dysgwyr

Disgwylir i ddysgwyr:

- bod yn oddefgar ac yn ystyrlon tuag at eraill
- bod yn gwrtais a pharchus i bob aelod o gymuned yr ysgol
- ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel gan werthfawrogi a gofalu am amgylchedd yr ysgol
- gwneud eu gorau bob amser i gyflawni a chaniatáu i eraill wneud yr un peth
- ymfalchïo yn eu hymddangosiad a gwisgo gwisg ysgol gywir fel ffordd o ddangos ymgysylltiad gyda'r gymuned ysgol
- dilyn rwtîns a normau'r ysgol

### Rhieni/Gofalwyr

Gofynnir i Rieni/Gofalwyr:

- annog eu plentyn i ymddwyn yn gadarnhaol, a'u cefnogi (trwy eiriau) a modelu (trwy weithredoedd) y perthnasau iach mae'r ysgol yn blaenoriaethu
- rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai effeithio ar ymddygiad eu plentyn
- drafod unrhyw bryderon ymddygiadol (sydd fel arfer yn cael eu cyfathrebu drwy pwyntiau negyddol ar Classcharts) gydag arweinydd Lles a Chynnydd eu plentyn

Brig y dudalen

# Rwtîns a Normau

Mae rwtîns a normau ein hysgol yn glir ac yn gyson ar draws ein cymuned ysgol ac yn cael eu gweithredu gan bob athro. Bydd rwtîns a normau'r ystafell ddosbarth yn cefnogi dysgwyr i ddeall yr hyn sydd ei angen er mwyn cael gwersi llwyddiannus a gwneud cynnydd. Mae'r rwtinau yn gwneud bywyd ysgol yn haws i rhagweld ac felly yn fwy sicr i bawb. Mae athrawon yn hyrwyddo ac yn cynllunio ar gyfer rwtîns a normau'r ystafell ddosbarth wrth baratoi ar gyfer gwersi.

Yn ysgol Gyfun Gwent Is Coed, rydym yn ymrwymo i:

- gyfarch dysgwyr mewn modd cadarnhaol a chyfeillgar ar ddechrau gwersi
- sicrhau bod pob dysgwr yn eistedd mewn sedd penodol a bod gweithgaredd cychwynnol yn cael ei ddarparu i ddysgwyr ei gwblhau ar ddechrau gwersi
- rhannu bwriadau dysgu clir a meini prawf llwyddiant gyda dysgwyr
- gwirio cynnydd drwy gydol y wers
- greu a chynnal amgylchedd dysgu cadarnhaol

**Gwobrau**
Mae'r Ysgol yn ystyried gwobrwyo dysgwyr fel un ffordd o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a chodi hunan-barch. Yr holl staff sy'n gyfrifol am wobrwyo dysgwyr, fel y nodir isod.

Mae'r Gwobrau'n cynnwys:
- canmoliaeth lafar am ddarn da o waith, neu am gyflawni targed penodol
- arddangos gwaith dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth
- sylwadau cadarnhaol ysgrifenedig ar waith dysgwyr
- dyfarnu pwyntiau teilyngdod Classcharts
- datganiadau gadarnhaol ar adroddiadau ac yn ystod nosweithiau rhieni
- atgyfnerthu gadarnhaol rheolaidd lle bynnag y bo modd
- tystysgrifau/Sêr yr wythnos i wobrwyo cynnydd, ymddygiad ac ymdrech
- cyswllt â rhieni dros y ffôn neu drwy e-bost i gydnabod ymddygiad da ac sydd yn gwella
- gwobrau priodol a roddir yn dymhorol am gynnydd, ymddygiad ac ymdrech

**Gweithredoedd**
Pan mae sefyllfa yn codi sydd angen ei ddatrys, byddwn yn archwilio’r opsiynau adferol isod yn gyntaf:
• Sgyrsiau/cynadleddau adferol
• Gweithredoedd adferol (fel ysgrifennu ymddiheuriad, pan fo'n briodol)

**Canlyniadau**
Pan fydd angen canlyniad yn dilyn ymddygiad a ystyrir yn wrthgymdeithasol ac yn erbyn ethos yr ysgol, byddwn yn gweithredu ymateb graddedig, sy’n cynnwys:
• Pwyntiau negyddol ar Classcharts
• Colli amser rhydd (egwyl, amser cinio)
• Cyfathrebu, gan gynnwys cyfarfodydd, gyda rhieni/gofalwyr
• Mynd ar adroddiad gyda thargedau penodol
• Diarddeliad mewnol
• Diarddeliad ysgol i ysgol
• Diarddeliad allanol cyfnod penodol
• Diarddeliad parhaol

Cyn penderfynu ar unrhyw fath o ddiarddeliad, bydd yr ysgol yn cynnal ymchwiliad llawn ac yn cyfathrebu’r canfyddiadau i’r holl rhanddeiliaid perthnasol (dysgwyr, rhieni, staff). Fel rhan o’r ymchwiliad, byddwn yn ystyried maint, hyd ac amlder y niwed a achoswyd a bydd hyn yn llywio unrhyw ganlyniadau.

Y Pennaeth sy'n penderfynu'n derfynol ar bob diarddeliad. Gweler y polisi diarddeliadau am ragor o wybodaeth.

**Ymddygiad oddi ar y safle**
Pan fo dysgwr wedi ymddwyn mewn ffordd wrth-gymdeithasol oddi ar y safle wrth gynrychioli'r ysgol, megis ar daith ysgol, neu wrth deithio i'r ysgol neu oddi yno (gweler y cod ymddygiad teithio isod) mae’n bosib bydd y Pennaeth yn penderfynu bod canlyniad yn addas.

[Brig y dudalen]

**Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr**
Mae cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn rhan annatod o wella ymddygiad a chefnogi dysgwyr. Bydd yr arweinydd Lles a Chynnydd perthnasol yn cyfathrebu â Rhieni/Gofalwyr drwy galwadau ffôn, e-byst, cyfarfodydd ar Teams a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd gan rieni/gofalwyr fynediad i'r ap rhieni Classcharts, ac fe'u hanogir i ymgynghori â hyn yn rheolaidd.

Gweler polisi Ymateb i Rieni ar wefan yr ysgol am fwy o wybodaeth parthed cyfathrebu gyda rhieni.

**Cefnogaeth i ddysgwyr**
Mae'r ysgol yn cydnabod ei dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i atal dysgwyr sydd â nodwedd warchodedig rhag bod o dan anfantais. O ganlyniad, gellir gwahaniaethu rhwng ein hymagwedd at ymddygiad heriol er mwyn diwallu anghenion y dysgwr penodol.

Bydd y tîm Cynhwysiant yn trafod dysgwr sy'n arddangos ymddygiad heriol i benderfynu a oes ganddynt unrhyw anghenion ychwanegol nad ydynt yn cael eu diwallu.
Lle bo angen, gofynnir am gymorth a chyngor hefyd gan athrawon arbenigol, y seicolegydd addysg, ymarferwyr meddygol, arbenigwyr yr ALl, a/neu eraill, i nodi neu gefnogi anghenion penodol.
Pan nodir anghenion dwys mewn dysgwr, byddwn yn cysylltu ag asiantaethau allanol ac yn cynllunio rhaglenni cymorth/cynlluniau cefnogaeth/asesiadau risg ar gyfer y plentyn hwnnw. Byddwn yn gweithio gyda rhieni i greu'r cynlluniau a'u adolygu'n rheolaidd.

**Pontio**
Mae'r berthynas gyda'r ysgolion Cynradd yn un hanfodol wrth fynd ati i gefnogi dysgwyr ac i fagu perthynas gyda nhw a'u rhieni. Bydd gwybodaeth perthnasol yn cael ei drosglwyddo i staff perthnasol yn ystod cyfarfodydd pontio ar hyd y flwyddyn. Gellir rhannu gwybodaeth am faterion perthnasol hefyd â lleoliadau newydd ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n trosglwyddo i ysgol arall ac o ysgolion Cynradd.

**Hyfforddiant**
Rhoddir cyfleoedd cyson i bob aelod o staff, ac yn enwedig i staff newydd, ymgymryd â hyfforddiant ar brosesau adferol, magu perthynas a gwella ymddygiad. Bydd hyn yn rhan o ddatblygiad broffesiynol parhaus.

**Trefniadau monitro**
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Pennaeth a'r corff llywodraethu llawn bob tair blynedd.

**Cysylltiadau â pholisïau eraill**
Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â'r polisïau canlynol:
- Polisi gwrth-fwlio
- Polisi diogelu
- Polisi presenoldeb
- Polisi defnydd derbyniol o dechnoleg
- Polisi Cwyn
- Polisi Ffonau Symudol
- Polisi diarddeliadau
- Polisi ymateb i rhieni

- Polisi ataliad corfforol
- Polisi Ymddygiad diogel wrth deithio

[Brig y dudalen](#)

**[Brig y dudalen](#)**

## Atodiad 1 – strwythur adferol

### Sgript adferol

Pan fo angen cymorth ar ddysgwr i wella'i ymddygiad, man cychwyn hyn yw cynnal sgwrs adferol, fel isod:

- ❖ Wyt ti'n iawn ?
- ❖ Beth sydd wedi digwydd?
- ❖ Felly, rwyt ti wedi....
- ❖ Fe wnaeth hynny i fi deimlo'n…
- ❖ Yr hyn hoffwn i ddigwydd nawr yw…

**Trefn cyfarfod adferol**

Gofyn i **berson 1** (y 'drwg weithredwr'): 'Beth ddigwyddodd?'

'Beth oeddet yn meddwl a sut oeddet yn teimlo ar y pryd?'

'Beth wyt ti'n meddwl/teimlo nawr?'

'Pwy cafodd eu heffeithio a sut?'

Gofyn i **berson 2** (y 'fictim'): 'Beth ddigwyddodd?'

'Beth oeddet yn meddwl a sut oeddet yn teimlo ar y pryd?'

'Beth wyt ti'n meddwl/teimlo nawr?'

'Pwy cafodd eu heffeithio a sut?'

'Beth wyt ti angen er mwyn gallu symud ymlaen a theimlo'n well?'

Gofyn i **berson 1**: 'Beth wyt ti angen er mwyn gallu symud ymlaen a theimlo'n well?'